

## Cyflwyniad byr i'r iaith: Twrceg<sup>1</sup>

Honnir fod tua 35 o wahanol fathau o ieithoedd Twrcaidd<sup>2</sup> yn cael eu siarad yn Nghanolbarth Asia, Siberia, Tsieina a'r Dwyrain Canol.

Fel arfer nodir fod Twrceg yn perthyn i grŵp ieithoedd Altäig<sup>3</sup>, ar enwyd ar ôl mynyddoedd yr Altai<sup>4</sup> a chyn-gartref y Twrciaid cynnar cyn iddyn nhw fudo i Anatolia o tua 1071 ymlaen. Mae rhai ysgolheigion yn gwrthod y grŵp ieithyddol hwn - yr Altäig - a ystyrir i fod yn cynnwys ieithoedd Twrcaidd<sup>5</sup>, Mongolaidd<sup>6</sup>, Twngwsaidd<sup>7</sup> a Chorëeg<sup>8</sup>.

Am flynyddoedd lawer, tybid fod Twrceg yn rhan o'r teulu Wral-Altäig<sup>9</sup>, ond noda Johanna Laakso o Adran Astudiaethau Ffinno-Wgriaidd<sup>10</sup>, Prifysgol Fienna<sup>11</sup>, wrth drafod y ddamcaniaeth gynnar fod Twrceg, Ffinneg<sup>12</sup> a Hwngareg yn perthyn:

The Ural-Altaic hypothesis still survives in some parts of the world as a common belief that "Finnish and Turkish are related". However, as pointed out earlier, the structural similarities between Finnish (or other Finno-Ugrian languages) and Turkish (or other Turkic or "Altaic" languages) are of a typological character: these languages belong to the same type. The basic vocabulary in these languages is quite different and does not allow for the reconstruction of a common proto-language. (Although not genetically related, Turkish does have some connections with the Finno-Ugrian languages. Some FU languages spoken in Central Russia and Western Siberia have been influenced by the neighbouring Turkic languages, and Hungarian has many layers of loanwords adopted from different Turkic-speaking tribes.)

Mae 8 llafariad yn yr iaith Twrceg, a ddsberthir i ddau grŵp: llafariaid ôl<sup>13</sup> a llafariaid

---

**1 Mae Geiriadur Prifysgol Cymru [GPC] yn nodi Twrceg, Tyrceg a Tyrcaeg; mae Geiriadur yr Academi [GA] yn cynnig Tyrceg yn unig; mae'r Wiciadur yn cynnig Twrceg a Wicipedia yn cynnig Tyrceg.**

<sup>2</sup> Argymhellir -aidd (ee Twrcaidd ac ati) ar gyfer grwpiau ieithoedd gan GPC

<sup>3</sup> GPC

<sup>4</sup> Altay yn Saesneg.

<sup>5</sup> Fel uchod ? [Turkic] = Twrcaidd

<sup>6</sup> GA Mongolaidd (ans) Mongoleg (iaith)

<sup>7</sup> GA Twngwseg (iaith)

<sup>8</sup> GA

<sup>9</sup> GA

<sup>10</sup> GA Ffinneg; GA Wgriaidd; ond sawl 'n' yn Ffinno yn Gymraeg?

<sup>11</sup> GA

<sup>12</sup> GA

<sup>13</sup> GPC

blaen<sup>14</sup>. Mae llafariaid ôl yn cael eu lleisio'n isel, a llafariaid blaen yn cael eu lleisio'n uchel. Nid yw geiriau Twrceg yn cynnwys cymysgedd o lafariaid ôl a llafariaid blaen. Rhaid i lafariaid sydd yn cael eu hychwanegu ar ddiwedd geiriau Twrceg, fel ôl-ddodiaid, gytuno gyda'r llafariad flaenorol.

Llafariaid ôl: a ı o u    Llafariaid blaen: e i ö ü

Cytseiniaid: b, c, ç, d, f, g, ğ, h, j, k, l, m, n, p, r, s, ş, t, v, y, z.

Mae morffoleg Twrceg yn gyflynol<sup>15</sup>, sydd yn golygu fod ôl-ddodiaid yn cael eu hychwanegu i ddynodi person, lleoliad ac amser. Felly er mwyn dweud, 'rydym ni wrth y bwrdd':

'masadayız'  
(masa - bwrdd) (da - wrth) (y - lleddfriad rhwng dwy lafariad) (ız - person cyntaf lluosog, ni)

Mae'n rhaid i bob llafariad gytuno gyda'i rhagflaenydd ac mae thai llafariaid yn cael eu hymestyn drwy ğ dawel. Effaith hyn yw creu iaith sydd yn llifo'n soniarus ac yn llawn harmoni, a dyna un o'r rhesymau pam rydw i'n credu fod Cymraeg a Twrceg yn paru'n dda fel ieithoedd cyfieithu. Mae gan y ddwy iaith reolau - fel treigladau - sydd yn hwyluso'r harmoni seiniau'r iaith.

Strwythur brawddeg arferol mewn Twrceg yw Goddrych Gwrthrych Berf (neu SOV). Mae hyn yn golygu fod angen i'r cyfieithydd aros ar gyfer y ferf - sydd yn cario'r holl ôl-ddodiaid ar gyfer amser, cyflwr, lleoliad a pherson) er mwyn gwybod pwy wnaeth beth i bwy a pha bryd. Gall cryn dipyn o amser fynd heibio cyn i'r ferf gyrraedd, gan fod y Twrciaid wrth eu boddau yn plethu llinellau ar linellau o gymalau at ei gilydd cyn cyrraedd y ferf yn y pendraw.

Weithiau mae beirdd yn torri cystrawen yr iaith er mwyn creu effaith barddonol. Yn yr achosion hyn, gellir doddi Goddrych y frawddeg at ei diwedd ac fe geir cystrawen Gwrthrych Berf Goddrych (neu OVS).

Gallwn weld y cyflynol mewn Twrceg, sef ychwanegu ôl-ddodiaid, yn yr enghraifft eithafol isod, sydd yn creu gair sydd 101 o lythrennau o hyd mewn Twrceg (er mai dim ond 94 yn Gymraeg):

Llanfairpwllgwyngyllgogerychwyrndrobwyllyllantyseiliogogochllastıramayabileceklerimi  
zdenmişsinizdir.  
a'i ystyr yw:

Mae'n ymddangos nad wyt ti yn un o'r bobl hynny na fyddwn ni byth yn medru dweud eu bod nhw yn dod o Lanfairpwllgwyngyllgogerychwyrndrobwyllyllantyseiliogogoch.

Pob hwyl gyda'r Her Gyfieithu.

---

<sup>14</sup> GPC

<sup>15</sup> GPC & GA

